

Byw er mwyn eraill

Dyfalbarhad / meddwl am eraill / pendantrwydd

Marya Sklodowska (Marie Curie): 1867-1934

Fyddwch chi'n hoffi chwarae efo pethau sy'n perthyn i'ch rhieni? Efallai bod y genethod yn hoffi chwarae efo dillad eu mamau. Gwisgo i fyny a rhoi colur ar eu hwynebau. A beth am y bechgyn? Defnyddio offer chwarae golff, neu eistedd yn y car a chwarae efo'r llyw! Dyma stori am ferch fach oedd wrth ei bodd yn mynd i'r cwpwrdd gwydr oedd yn llawn o offer ei thad. Marya Sklodowska, neu Madame Curie fel y daeth i gael ei hadnabod, oedd y ferch fach honno. Mae'r stori hon yn dweud ei hanes yn tyfu i fyny i fod yn wyddonydd enwog.

Ganwyd Marya yn Warsaw, prifddinas Gwlad Pwyl. Pan oedd yn eneth fach byddai wrth ei bodd yn chwarae o gwmpas y tŷ. Yn y gwanwyn a'r haf byddai'n gwyllo'r adar yn nythu, y blodau yn blaguro a'r coed yn deilio. Yn yr hydref a'r gaeaf pan fyddai'r tywydd yn oeri byddai'n chwarae â chelfi ei thad yn y tŷ. Yn y cwpwrdd gwydr roedd offer gwyddonol. Roedd hi'n sicr ei bod, ar ôl iddi dyfu i fyny, am fod yn wyddonydd.

Aeth i brifysgol Paris, yn Ffrainc. Ar ôl iddi orffen ei gwaith yn y brifysgol, roedd hi'n awyddus iawn i fynd yn ôl i'w mamwlad yng Ngwlad Pwyl. Bu'n gweithio'n galed iawn. Doedd hi ddim fel myfyrwyr eraill. Doedd hi byth yn mynd allan i fwynhau ei hun, doedd hi ddim yn prynu dillad newydd ac, yn wir, doedd hi ddim yn prynu bwyd. Roedd hi'n byw i'w gwaith. Fel gwyddonydd, roedd hi'n arbrofi yn ei hystafell yn atig ei fflat. Prin y byddai hi'n gadael ei hystafell. Ar ôl i'r ddarlith orffen, byddai Marya yn mynd yn syth i'w hystafell. Doedd ganddi ddim ffrindiau o gwbl.

Ond, un diwrnod, daeth ar draws Ffrancwr o'r enw Pierre Curie. Roedd yntau, fel Marya, yn wyddonydd ac yn treulio pob awr o'r dydd yn ei labordy. Dechreuodd y ddau drafod gyda'i gilydd. Byddai'r ddau'n treulio llawer o'u hamser yn atig Marya.

Ymhen ychydig fe ofynnodd Pierre iddi ei briodi. Ac yn wir, ymhen rhai misoedd, priododd y ddau a byw mewn fflat ym Mharis. Yng ngwaelod yr ardd roedd siéd fechan bren. Yno y byddai'r ddau yn treulio'u hamser yn arbrofi ar wahanol bethau.

Daeth Marya a Pierre yn enwog drwy'r byd. Nhw oedd y rhai cyntaf i ddarganfod 'radiwm'. Erbyn heddiw mae radiwm yn cael ei ddefnyddio i wella pobl sy'n dioddef o ganser.

Hawdd iawn fyddai iddyn nhw wneud arian o'u darganfyddiadau, ond roedden nhw'n barod i rannu eu gwybodaeth efo pawb yn rhad ac am ddim. Roedden nhw'n barod i deithio'r byd i sôn am eu darganfyddiadau wrth wyddonwyr eraill. Fe dderbyniodd Wobr Nobel ym 1903. Bu Marya farw yn 1934. Roedd ei gwaith o drin y radiwm wedi effeithio ar ei hiechyd. Rhoddodd Marya ei bywyd i wasanaethu pobl eraill. Doedd hi ddim yn meddwl amdani ei hun, dim ond am bobl eraill bob amser.



“Estyn dy law. Estynnodd yntau hi, a gwnaed ei law yn iach.”

Marc 3:5



Arglwydd, bydded i mi garu dy holl greadigaeth, y ddaear a phob gronyn o dywod sydd ynddi. Bydded i ni garu pob deilen, pob pelydryn o'th oleuni di.
Amen.

(Fyodor Dostoyevsky)



Ydych chi'n credu bod ffordd y gwyddonydd o feddwl yn wahanol i ffordd y Cristion?
Ym mha ffordd?